



Ein cyf/Our ref: PO/2023/68

Huw Irranca-Davies, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

1 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

BIL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU)

Ymhellach at fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor a'ch llythyr dilynol ar 15 Chwefror, rwy'n falch o allu nodi manylion pellach am ein cynlluniau i adolygu'r ddeddfwriaeth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol morol.

Fel y mae'r Pwyllgor wedi ei glywed o'n tystiolaeth ni, tystiolaeth Comisiwn y Gyfraith a thystiolaeth Dr Roberts o Brifysgol Bangor, mae'r amgylchedd hanesyddol morol yn gymhleth ac yn cwmpasu llawer mwy na llongdrylliadau. Mae gwe gymhleth o ddeddfwriaeth yn rhoi amddiffyniad i'r amgylchedd hanesyddol morol, yn amrywio o dirweddau cynhanesyddol tanddwr i olion milwrol modern. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n uniongyrchol berthnasol yn cynnwys y canlynol:

- Deddf Diogelu Llongdrylliadau 1973
- Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979
- Deddf Gwarchod Olion Milwrol 1986
- Deddf Llongau Masnach 1995, a
- Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

Mae'r Llywodraeth yn cytuno ag argymhelliad 6 o adroddiad y Pwyllgor ar ei Ystyriaeth Gychwynnol o'r Bil bod angen adolygiad o'r amddiffyniad deddfwriaethol a roddir i'r amgylchedd hanesyddol morol. Bydd adolygiad o'r fath yn ymgymeriad sylweddol oherwydd natur amrywiol yr asedau hanesyddol dan sylw, y galwadau cynyddol ar yr amgylchedd hanesyddol morol a chymeriad cymhleth y fframweithiau amddiffynnol sydd ar waith. Yn ogystal, mae'r broses o reoli gweithgareddau yn nyfroedd Cymru yn cael ei rhannu rhwng swyddogaethau datganoledig a swyddogaethau a gedwir gan Lywodraeth y DU.

Er mwyn cynnal yr adolygiad yn effeithiol, bydd angen i Lywodraeth Cymru gasglu tystiolaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwerthuso'r ddeddfwriaeth bresennol yn drylwyr. Bydd Cadw yn ceisio gweithio gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a chyrrff

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyhoeddus eraill i ddatblygu'r sail dystiolaeth er mwyn llywio'r adolygiad. Ein nod yw asesu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol erbyn diwedd 2024.

Bydd angen ystyried y camau nesaf yn dilyn yr adolygiad hwnnw, boed yn ddeddfwriaethol neu'n anneddfwriaethol, ynghyd â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar y pryd. Yn y cyfamser, gallaf dawelu meddyliau'r Pwyllgor y bydd y fframweithiau deddfwriaethol presennol, gan gynnwys Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973, yn parhau i ddarparu amddiffyniad i'r amgylchedd hanesyddol morol.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style and is positioned above a short horizontal blue line.

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution